# Llywodraethwyr Cymru

## HES(3)-05-08(p3)

## Tystiolaeth i Bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion

**17 Mehefin 2008**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae Llywodraethwyr Cymru yn croesawu'r cyfle i fynychu a chyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) .

1.2 Bydd arsylwadau Llywodraethwyr Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar y cwestiynau a nodir gan Gadeirydd y Pwyllgor, yn ychwanegol at y sylwadau a gyflwynwyd gan Lywodraethwyr Cymru ar y cynigion ymgynghori cychwynnol ym mis Chwefror 2008 (Atodiad 1)

**2. Crynodeb**

2.1 Mae Llywodraethwyr Cymru'n cefnogi'r angen am bolisi clir, cryno sydd yn hyrwyddo ymagwedd holistaidd tuag at fwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir ac sydd yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd bwyta'n iach. (Cwestiwn 1). Ond mae Llywodraethwyr Cymru'n cydnabod bod llawr yn cael ei wneud ar hyn o bryd i hyrwyddo'r ymagwedd hwn, e.e "Cynllun Gweithredu" "Blas am Oes"

"

"

, sydd yn dwyn ynghyd ac yn hyrwyddo amrediad o bolisïau i gefnogi bwyta'n iach i blant a phobl ifanc.

2.2 Mae Llywodraethwyr Cymru'n cefnogi'r pedwar newid a wnaethpwyd i'r Mesur arfaethedig yn deillio o'r ymgynghori cyhoeddus - (i) ymgynghori'n ehangach, (ii) ymgynghori cyn gwneud rheoliadau, (iii) dwr yfed mewn ysgolion a (iv) dyletswydd cyrff llywodraethu a phenaethiaid i gyflwyno adroddiadau. Mae Llywodraethwyr Cymru'n nodi bod y newidiadau mewn gofynion adrodd yn nodi pwynt a wnaethpwyd yn ymateb Llywodraethwyr Cymru i'r ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu adrodd ar y camau a gymerir i hyrwyddo bwyta'n iach a gwneud sylwadau ar y canlyniadau yn eu hadroddiad blynyddol i rieni.

2.3 Ar y cyfan mae Llywodraethwyr Cymru'n cefnogi'r dyletswyddau fel yr amlinellwyd ar gyfer Gweinidogion Cymreig, penaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau addysg lleol i hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion a darpariaethau allweddol eraill fel y nodwyd (Cwestiwn 2) ond hoffai bwysleisio'r angen i gofio peidio â chreu llwyth gwaith ychwanegol a rhagor o brosesau biwrocrataidd. Mae angen cydbwyso hyn yn ofalus2.4 Mae Llywodraethwyr Cymru'n cytuno gyda diogelu enwau disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim ac yn gobeithio y bydd cyflwyno system electronig i gynorthwyo gyda chymhwyster ar gyfer prydau bwyd ysgol am ddim yn annog y nifer sydd yn manteisio ar yr hawl ac yn lleihau biwrocratiaeth mewn ysgolion. Mae tystiolaeth anecdotaidd nad yw nifer o blant sydd â hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim yn gwneud hynny oherwydd y stigma yn gysylltiedig â hynny. Mae croeso i unrhyw beth sydd yn cyflwyno anhysbysedd i'r broses.

2.5 Cyn belled ag y mae oblygiadau ymarferol dan sylw (Cwestiwn 3) hoffai Llywodraethwyr Cymru gael esboniad a ydy gweithgareddau CRhA wrth werthu losin, byr brydau a diodydd yn cael eu heffeithio gan y Mesur. Efallai bod rhai o'r eitemau yn 'afiach' ond cânt eu gwerthu fel rheol mewn digwyddiadau y tu allan i oriau ysgol fel discos, sesiynau bingo cyngherddau a ffeiriau. Maent yn cael eu gwerthu i oedolion hefyd yn ogystal ag i ddisgyblion. Y pwynt allweddol yw bod gwerthu'r rhain yn creu refeniw a ddefnyddir wedyn er lles disgyblion wrth dalu am ffoer ysgol etc ac felly ategu at gyllidebau ysgolion sydd dan bwysau. Nid yw'n eglur o gymalau 1 a 7 o'r Mesur a yw gweithgareddau CRhA yn gynwysedig ac mae angen ystyried hyn.

2.6 Mae'n amlwg o adran 8 o'r Memorandwm Esboniadol y bydd y gofyniad am safonau maeth uwch yn cynyddu costau prydau bwyd ysgolion. Er y bydd y cynnydd mewn cost yn ychwanegol yn unol â'r ymagwedd a gynigir ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau, dylid adlewyrchu costau uwch o'r fath yn y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad i Awdurdodau Lleol ac felly i ysgolion, lle mae cyllid prydau bwyd ysgolion wedi'i ddirprwyo. (Cwestiwn 3)

2.7 Yn ymateb Llywodraethwyr Cymru i'r ymgynghoriad cychwynnol , awgrymodd Llywodraethwyr Cymru y gallai fod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynhyrchu polisi bwyd yn ymgorffori egwyddorion bwyta'n iach er mwyn helpu i sicrhau bod cynnydd yn digwydd ar wella bwyta'n iach mewn ysgolion. Ni chafodd y pwynt hwn ei nodi yn y newidiadau a wnaethpwyd i'r Mesur arfaethedig. Mae Llywodraethwyr Cymru yn gofyn i hyn gael ei ail ystyried gan gredu y byddai'n ddefnyddiol heb fod yn faich ychwanegol sylweddol ar ysgolion. Mae gan rai ysgolion bolisi bwyta'n iach neu ffordd o fyw iach eisoes, ac fe gaiff ei ystyried yn ymarfer da.

**3. Casgliad**

3.1 Ar y cyfan mae Llywodraethwyr Cymru yn cefnogi diben a nod cyffredinol y Mesur arfaethedig, yn enwedig yr ymagwedd holistaidd ysgol gyfan tuag at fwyta'n iach. Ond mae Llywodraethwyr Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd y canllaw, deunyddiau cefnogi ac

adnoddau ariannol ychwanegol fel bod pob pawb yn ymarfer y swyddogaethau hyn yn effeithiol.

3.2 Mae Llywodraethwyr Cymru yn edrych ymlaen at drafodaeth bellach ar y cynigion drafft ymhen amser. Bydd y Mesur Arfaethedig yn adeiladu ar yr enghreifftiau o ymarfer da sydd eisoes ar gael yng Nghymru gan ddwyn ynghyd deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, a bydd yn cynorthwyo i sicrhau gwelliant pellach mewn safonau maeth ac ar yr un pryd yn darparu gallu i fonitro a gwerthuso cynnydd, a hefyd rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc.

**Atodiad 1**

**Ymgynghoriad:**

**Cynigion ar gyfer y Mesur Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion**

Mae Llywodraethwyr Cymru'n croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion ar gyfer y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion ac yn cyflwyno'r sylwadau canlynol:-

1. Ydych chi'n meddwl y bydd y Mesur arfaethedig yn hybu dull cyfannol "ysgol gyfan" o drin bwyta'n iach? A oes unrhyw bwerau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y Mesur i hybu'r dull hwn ymhellach mewn ysgolion?

Mae Llywodraethwyr Cymru yn cefnogi'r cysyniad o ymagwedd holistaidd tuag at fwyta'n iach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn meithrinfeydd, fel y nodir yn y cynnig.

2. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer Rheoliadau a fydd yn manylu ar safonau o ran maeth y bydd Gweinidogion Cymru'n eu cyflwyno. Ydych chi'n meddwl y bydd y dull cynyddrannol hwn o weithredu'n sicrhau na fydd cyflymder y diwygiadau'n estroni plant, phobl ifanc a rhieni?

Mae Llywodraethwyr Cymru'n croesawu ymagwedd gam wrth gam; mae gwersi i'w dysgu oddi wrth y profiad yn Lloegr.

3. A oes unrhyw bwerau ychwanegol y dylid eu hychwanegu at y Mesur arfaethedig a fyddai'n gwella bwyta'n iach ymhellach mewn ysgolion?

Mae angen cynnwys gweithgareddau Cymdeithasau Rhieni Athrawon pan fyddant yn gwerthu diodydd a melysion wrth drefnu gweithgareddau fel discos. Efallai mai dyna yw bwriad cymal 7(7)(b) o'r Mesur.

4. A yw'r Mesur arfaethedig yn hybu'n foddhaol egwyddorion datblygu cynaliadwy yn narpariaeth bwyd ysgol iach?

Mae cyfeiriadau yn y mesur at yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy braidd yn brin.

5. Ydych chi'n cytuno â'r dyletswyddau, y cyfrifoldebau a'r gofynion adrodd a gynigir yn y Mesur ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr? A fydd y gofynion hyn yn sicrhau y ceir cynnydd â gwella bwyta'n iach mewn ysgolion?

Bydd rhaid i'r rheoliadau sydd i'w cynhyrchu ar ddyletswydd ysgolion i adrodd gymryd i ystyriaeth y ffaith mai'r corff llywodraethu ac nid y pennaeth sydd yn gorfod cynhyrchu adroddiad blynyddol i rieni ar weithgarwch cyffredinol yr ysgol, a dylai camau i hyrwyddo bwyta'n iach fod yn rhan o'r adroddiad. Gall hefyd fod yn briodol i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion gynhyrchu polisi bwyd yn ymgorffori egwyddorion bwyta'n iach.

6. Ydych chi'n meddwl bod y dyletswyddau, y cyfrifoldebau a'r gofynion adrodd a gynigir ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Awdurdodau Addysg Lleol a'r Prif Arolygydd Ysgolion yn ddigonol i gael effaith gadarnhaol ar weithredu a monitro bwyta'n iach mewn ysgolion?

Ydy, cyn belled â'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson!

7. Fe ddaw cost ariannol o ganlyniad i'r cynigion yn y Mesur i ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion ac, i raddau llai, Estyn. A fydd y cynigion hyn yn golygu y daw costau ariannol i ran eich sefydliad chi, ac os felly, beth fydd y costau hyn? (dywedwch faint fydd y costau).

Bydd angen i Lywodraethwyr Cymru gymryd y Mesur hwn i ystyriaeth yn y cyngor a roddir i lywodraethwyr mewn unrhyw gyhoeddiadau a gynhyrchir gan Lywodraethwyr Cymru ac mewn ymatebion i faterion a godir gan lywodraethwyr, ond nid yw'n ymarferol rhagweld cost ariannol hyn.